Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 22ain Orffennaf 2014

Presennol - Helen Ellis Cadeirydd, Alun Jones, Hefin Edwards, Guto G Jones., Prys Ellis, Cyng. Sir Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Dim ymddiheriad

Datgan diddordeb, Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion, Cadarnhawyd y cofnodion a gynhaliwyd ar y 17eg Fehefin 2014

Materion yn Codi

[1]Yr Heddlu
Rhoddwyd gwybodaeth gerbron gan PCSO Aimie Clayton fel a ganlyn
[a] Mae 22 milltir yr awr ydi cyflymder arferol moduron wrth deithio i lawr King Street.
[b] Bod trafodaeth ar hyn o bryd ynglŷn â gosod cyflymder o 20 m.y.a. gyferbyn a'r ysgol.
[c] Bod rhywun wedi lladrata diesel o'r Brenig.
[d] Bod yr heddlu wedi cael gair ynglŷn â gyrru modur yn wrth gymdeithasol yn y gymuned.

[1.1]] Dyfodol y Llyfrgell
Dywedodd y clerc iddo dderbyn cadarnhad bod grant wedi ei sicrhau ar gyfer creu gwelliannau i'r adeilad, ac efallai bydd y llyfrgell yn symud i'r Ystafell Blwyf tra bydd y gwaith yn mynd ymlaen.

[1.2] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]
Yn unol â chais gan y Cyngor Sir, penderfynwyd paratoi taflen o enwau lleol yn cefnogi'r cais am welliannau i'r llwybr, a hefyd bod y Cyngor Cymuned yn siomedig bod angen tystiolaeth o'r fath.

[1.3] Ms Heidi Dobbs/Trefnu ar gyfer Argyfwng
Dywedodd y clerc ei fod yn parhau i ddisgwyl gair oddiwrth Ms Dobbs.

[1.4] Cae Chwarae Ty'n y Felin/ Gosod Goliau
Nodwyd y bydd y goliau yn cael eu gosod yn y dyfodol agos.

[1.5] Pant Blaidd Ffordd Cwmpenanner/ Creu lle i foduron fynd heibio
Nodwyd ateb gan y Bwrdd Dwr ei bod yn bwriadu creu lle o fewn y safle ar gyfer y loriau.

[1.6] Goleuadau/Maes y Ffynnon
Deallwyd bod y goleuadau wedi eu gosod ond nad ydynt yn hollol foddhaol

Y brif agenda

[1.7] Cyfrifon Ebrill 2013/Mawrth 2014
Nodwyd nad oedd yr archwiliwr allanol wedi gwneud unrhyw sylw. Penderfynwyd cymeradwyo'r cyfrifon.

[1.8] ] Materion Cynllunio
[a] Trosi hen gapel [Capel Moriah] yn bedair fflat
Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais fel ac y mae a'r hyn o bryd, gan amlinellu'r gwrthwynebiad fel a ganlyn ;
[1] Dim galw am fflatiau yn y pentref, mae amryw o fflatiau gwag yn y llan
[2] Bod pryder nad yw'r trefniadau ar gyfer parcio yn foddhaol.

[b] Gosod to newydd ar iard dail –Tai'n –y-Foel
[c] Adeiladu llinell 11kw uwchben - Pentre' Draw, Pentrellyncymer.
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[2.1] Nodwyd y wybodaeth ganlynol
[a] Fferm wynt Coedwig Clocaenog, Dalen Wybodaeth am Nawdd Cymunedol
[b] Cyngor BS Conwy, Diweddariad ar y Canllawiau Cynllunio Atodol.
[c] SP Energy Networks Prosiect Cysylltiad Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru.
[d] Adroddiad yr Ombwdsman
[e] Ymgynghoriad Canllaw, Cynllun Atodol yr Iaith Gymraeg.

[2.2] Cyfraniad
Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn:
Siec 100707 Ambiwlans Awyr Cymru £75.00
Siec 100708 Hope House £25.00
Siec 100709 Gŵyl Drama Corwen £15.00
Siec 100710 Gofal Cancr Macmillan £25.00